**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

**National Assembly for Wales**
Communities, Equality and Local Government Committee

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
Prif Weinidog Cymru
Llywodraeth Cymru

**2 Gorffennaf 2015**

**Sesiwn dystiolaeth: y Gymraeg**

Annwyl Brif Weinidog

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch gwahodd i gyfarfod y Pwyllgor yn nhymor yr hydref i drafod eich cyfrifoldebau dros y Gymraeg. Yn benodol, hoffai'r Aelodau eich holi am Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg. Rydym yn rhagweld y bydd yr adroddiad wedi'i gyhoeddi erbyn sesiwn hon.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddarparu papur cyn y cyfarfod yn nodi'r isod, yn ogystal â materion yn ymwneud ag Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2014-15:

- y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn a gyflawnwyd hyd yma yn ystod blwyddyn gyntaf y strategaeth *Bwrw Mlaen*;
- y wybodaeth ddiweddaraf am roi Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011ar waith, gan gynnwys y broses o gyflwyno'r safonau;
- manylion am y modd y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ymlaen â materion yn ymwneud â'r Gymraeg wrth roi adolygiad Donaldson ar waith.

Yn fwy cyffredinol, dylech wybod bod y Pwyllgor wedi cytuno i adolygu'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad er mwyn asesu ei effaith. Bydd y sesiwn dystiolaeth gyda chi'n gyfle i drafod y gwaith a gyflawnodd y Pwyllgor o ran y Gymraeg fel rhan o'r adolygiad etifeddiaeth hwn.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCCLLL@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCCLLL
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCELG@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCELG
0300 200 6565

Bydd y Clerc yn cysylltu â'ch swyddfa ynghylch y trefniadau ar gyfer y cyfarfod, a byddwn yn ddiolchgar pa baech yn anfon eich papur erbyn dydd Gwener 31 Gorffennaf.

Yn gywir,

**Christine Chapman AC / AM**
**Cadeirydd**